



Heddlu Police

DYFED-POWYS

Polisi Cyfryngau Symudadwy

Crynodeb o'r polisi:	<i>Mae'r polisi hwn yn nodi'r gofynion ar gyfer sicrhau defnydd diogel a chywir o ddyfeisiau cyfryngau symudadwy o fewn Heddlu Dyfed-Powys.</i>
Rhif y polisi:	<i>024/2020</i>
Rheoli fersiynau:	<i>Fersiwn: 7.0 Dyddiad: 29/10/2021 Awdur: [REDACTED] Rhesymwaith: Adolygiad terfynol 2021 â mân newidiadau gramadegol. Mae rheoli fersiynau llawn ar gael fan hyn.</i>
Dyddiad gweithredu:	<i>Tachwedd 2020</i>
Dyddiad adolygu:	<i>Tachwedd 2022</i>
Perchennog/ cyswllt:	<i>Perchennog: Pennaeth TGCh Awdur: Swyddog Diogelwch TG</i>
Cymeradwyo:	<i>Bwrdd: Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth Dyddiad cymeradwyo: 17/12/2021</i>
Ymgynghori chymeradwyo	<i>a Rheolwyr TGCh Rheolwr Gwybodaeth</i>
Cyfieithiad Saesneg:	<i>Oes</i>



1. Datganiad Polisi

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn sicrhau'r defnydd rheoledig o ddyfeisiau cyfryngau symudol i gadw a throsglwyddo gwybodaeth gan bob defnyddiwr sydd â mynediad at wybodaeth, systemau gwybodaeth ac offer TG ar gyfer dibenion cynnal busnes HDP swyddogol.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r polisi Cyfryngau Symudadwy ar gyfer HDP, a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Canllawiau Cyfryngau Symudadwy. Mae'r polisi a'r canllawiau'n sefydlu'r egwyddorion ac arferion gweithio sydd i'w mabwysiadu gan bob defnyddiwr er mwyn i ddata gael ei gadw'n ddiogel a'i drosglwyddo i gyfryngau symudadwy.

Mae'r polisi hwn yn anelu i sicrhau bod y defnydd o ddyfeisiau cyfryngau symudadwy yn cael ei reoli er mwyn:

- Galluogi'r data cywir i fod ar gael pan fod angen.
- Cynnal unplygrwydd y data.
- Atal canlyniadau anfwriadol neu fwriadol i sefydlogrwydd systemau HDP.
- Osgoi mynd yn groes i unrhyw ofynion arfer da, deddfwriaeth neu bolisi.
- Adeiladu hyder a ffydd yn y data sy'n cael ei rannu rhwng systemau.
- Cynnal safonau gofal uchel o ran sicrhau diogelwch gwybodaeth sensitif.
- Gwahardd datgelu gwybodaeth fel y gallai fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith.

2. Cwmpas y Polisi

Dylid glynu wrth y polisi hwn bob amser, yn enwedig pryd bynnag y mae unrhyw ddefnyddiwr yn cadw neu trosglwyddo unrhyw wybodaeth sy'n cael ei defnyddio gan HDP i gynnal busnes swyddogol ar ddyfeisiau cyfryngau symudadwy.

Dyfeisiau cadw data yw cyfryngau symudadwy sy'n medru symud system gyfrifiadurol heb ddiffodd y system. Defnyddir dyfeisiau cyfryngau symudadwy ar gyfer cludo, storio a chadw data.

Nid yw'r polisi hwn yn cyfeirio at ddyfeisiau data symudol HDP a gyhoeddir i swyddogion. Mae polisi ar wahân sy'n ymdrin â'r defnydd o'r dyfeisiau hyn.



Heddlu Police

DYFED-POWYS

Mae HDP yn cydnabod bod risgiau'n gysylltiedig â defnyddwyr yn cael mynediad at wybodaeth a'i thrin er mwyn cynnal busnes swyddogol HDP.

Mae sicrhau data'n hollbwysig – yn arbennig mewn perthynas ag angen HDP i ddiogelu data yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'r DU.

Gallai colli'r gallu i gael mynediad at wybodaeth, neu ymyrryd â'i chywirdeb, gael effaith sylweddol ar weithrediad effeithlon HDP. Gan hynny, mae'n hollbwysig ar gyfer gweithrediad parhaus HDP fod cyfrinachedd, cywirdeb ac argaeledd yr holl systemau cofnodi gwybodaeth yn cael eu cynnal ar lefel sy'n briodol ar gyfer anghenion HDP.

Mae'r polisi hwn a'r canllawiau'n anelu i liniau'r peryglon canlynol:

- Datgelu gwybodaeth o ganlyniad i golled, lladrad neu ddefnydd anghyfrifol o ddyfeisiau cyfryngau symudadwy.
- Llygru rhwydweithiau neu offer HDP drwy gyflwyno firsau drwy drosglwyddo data o un math o offer TG i un arall.
- Sancsiynau posibl yn erbyn HDP neu unigolion a osodir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o ganlyniad i gamddefnyddio neu golli gwybodaeth.
- Camau cyfreithiol posibl yn erbyn HDP neu unigolion o ganlyniad i gamddefnyddio neu golli gwybodaeth.
- Niwed i enw da HDP o ganlyniad i gamddefnyddio neu golli gwybodaeth.

Gall peidio â chydymffurfio â'r polisi hwn gael effaith anffafriol ar weithrediad effeithlon HDP a gall arwain at golled ariannol ac anallu i'r Heddlu gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol.

Elfen allweddol o'r Polisi Cyfryngau Symudadwy yw'r gofyniad i sicrhau y defnyddir amgryptiad BitLocker wrth ddefnyddio dyfeisiau cyfryngau symudadwy, yn enwedig cofau bach USB. Gall yr adran TGCh roi arweiniad ar hyn pan fod angen.

Mae'r polisi hwn yn effeithio ar gyfer holl categorïau gweithwyr Heddlu Dyfed-Powys, pa un ai a ydynt yn staff llawn amser, rhan amser, parhaol, cyfnod penodol, dros dro (gan gynnwys staff asiantaeth, cymdeithion a chontractwyr) neu'n staff sydd ar secondiad. Rhaid i unrhyw weithiwr sy'n cael gafael ar asedau ac eiddo'r Heddlu ac yn eu defnyddio roi ystyriaeth ddyledus i gynnwys y polisi hwn.



3. Pwerau a Gofynion Cyfreithiol/Polisi

Mae'r polisi hwn yn addas ar gyfer y diben o ran ei fod yn bodloni gofynion sefydliadol ac yn cydymffurfio â mesurau rheoli fel yr argymhellir o dan ganllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol Safonau a Thechnoleg (SCSTh), yn benodol, Cyhoeddiad Arbennig SCSTh 800-184 (Diwygiad 4) Rheoliadau Preifatrwydd a Diogelwch ar gyfer Sefydliadau a Systemau Gwybodaeth Ffederal. Mae'r polisi hwn hefyd yn cydymffurfio â'r argymhellion a ddarparwyd gan y Ganolfan Genedlaethol Seiberddiogelwch mewn perthynas â chanllawiau diogelwch cadwyn gyflenwi.

Mae'r Heddlu'n cydymffurfio â'r deddfwriaethau canlynol a phob deddfwriaeth arall fel y bo'n briodol (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny):

- Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990
- Deddf Diogelu Data 2018
- Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989
- Deddf Cyfathrebu Electronig 2000
- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Polisiau, safonau, gweithdrefnau ac arferion cysylltiedig, gan gynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny):

- Gweithdrefnau a Safonau Diogelwch Gwybodaeth Heddlu Dyfed-Powys
- Polisi Diogelwch Seiber Heddlu Dyfed-Powys
- Polisi Diogelu Data Heddlu Dyfed-Powys
- Canllawiau'r Uned Cymorth Technegol Heddlu Dyfed-Powys: Canllawiau HDP o ran y defnydd o yriannau USB ar gyfer Adfer TCC Digidol

ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae Rhan 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'r **nodweddion gwarchoddedig** sy'n gymwys i'w diogelu dan y Ddeddf, sef: Oed; Anabledd; Ailbennu Rhywedd; Priodas a

SWYDDOGOL



Heddlu Police DYFED-POWYS

Phartneriaeth Sifil; Beichiogrwydd a Mamolaeth; Hil; Crefydd neu Gred; Rhywedd; Cyfeiriadedd Rhywiol.

Mae **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** yn gosod gofyniad cyfreithiol rhagweithiol ar gyrf cyhoeddus i roi ystyriaeth, wrth arfer eu swyddogaethau, i'r angen i:

- ddileu camwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon dan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu;
- hybu perthynas dda rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn berthnasol i'r holl nodweddion gwarchoddedig ac eithrio Priodas a Phartneriaeth Sifil, ac yn yr achos hwnnw dim ond y ddyletswydd i ystyried yr angen i ddileu camwahaniaethu sy'n berthnasol.

Er mwyn cynnal **asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb** rhaid mynd ati'n systematig i asesu effeithiau tebygol neu wirioneddol polisi ar bobl o safbwynt yr holl nodweddion gwarchoddedig a nodir uchod.

Dylid cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob polisi sy'n **berthnasol** i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae templed ar gyfer asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gael [yma](#).

CWBLHAWYD ASESIAID O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Enw:	██████████
Adran:	Technoleg a Systemau Gwybodaeth
Llofnod:	██████████
Dyddiad:	22/07/2020

DEDDF HAWLIAU DYNOL

TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIAETH



Cafodd y polisi hwn ei ddrafftio yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dynol a'i adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol, ac ystyrir ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf honno a'r egwyddorion sy'n sail iddi.

Enw:	██████████
Adran:	Gwasanaethau Cyfreithiol
Llofnod:	████████████████████
Dyddiad:	19 Hydref 2020

4. Dewisiadau a Chynlluniau Wrth Gefn

Perchennog y Polisi: Mae'r polisi hwn yn eiddo i'r Pennaeth TGCh, sy'n gyfrifol am fonitro'r polisi'n rheolaidd ar gyfer ei effeithiolrwydd, heriau i'r polisi, unrhyw newidiadau i ganllawiau Sefydliad Cenedlaethol Safonau a Thechnoleg/Canolfan Genedlaethol Diogelwch Seiber, ac unrhyw eitemau aneffeithlon mewn perthynas â gweithredu'r polisi hwn.

Proses Gymeradwyo: Mae'r Bwrdd Sicrhau Gwybodaeth yn cymeradwyo penderfyniadau mewn perthynas â gweithredu'r polisi hwn.

Y Canllawiau Cyfryngau Symudadwy: Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r gweithdrefnau a'r prosesau mewn perthynas â'r defnydd o Gyfryngau Symudadwy.

Mae'r gweithdrefnau a'r prosesau a nodir o fewn y Canllawiau Cyfryngau Symudadwy'n berthnasol i holl swyddogion ac aelodau staff yr heddlu sy'n gysylltiedig ag unrhyw agwedd o Gyfryngau Symudadwy yn HDP. Ceisir cyfeiriad at oruchwylwyr a rheolwyr am gyngor a chanllawiau lle yr ystyrir hynny'n briodol.

Mae'r egwyddorion Cod Moeseg canlynol yn berthnasol ar gyfer y polisi hwn:

Atebolrwydd – Rydym yn atebol am y penderfyniadau, gweithredoedd ac esgeulustod a wnaed.

SWYDDOGOL



Heddlu Police
DYFED-POWYS

Tegwch – Rydym yn trin pobl yn deg

Gonestrwydd – Rydym yn onest ac yn ddibynadwy

Unplygrwydd – Rydym yn gwneud y pethau iawn bob tro

Arweinyddiaeth – Rydym yn arwain trwy esiampl dda

Gwrthrychedd – Rydym yn gwneud dewisiadau ar sail tystiolaeth a'n barn broffesiynol orau

Didwylledd – Rydym yn agored a thryloyw yn ein gweithredoedd a'n penderfyniadau

Parch – Rydym yn trin pawb â pharch

Anhunanoldeb – Rydym yn gweithredu'n anhunanol ac er budd y cyhoedd.

TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIO Â'R COD MOESEG

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r Cod Moeseg ac wedi'i adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol ac ystyrir ei fod yn cydymffurfio a'r Cod hwn a'r egwyddorion sy'n ei danategu.

Enw:	██████████
Adran	Technoleg a Systemau Gwybodaeth
Llofnod:	██████████
Dyddiad:	21.10.2021

5. Gweithredu ac Adolygu

Defnyddir Olrheinwyr Llif Gwaith mewn perthynas â'r defnydd o gyfryngau symudadwy i feintoli materion sy'n ymwneud â defnyddio cyfryngau symudadwy.

Mae'r Adran TGCh yn monitro firysau/maleiswedd ac ati sy'n effeithio ar systemau'r Heddlu; defnyddir hyn i fonitro materion diogelwch seiber a thynnu sylw at unrhyw

SWYDDOGOL



Heddlu Police DYFED-POWYS

fethiant yn y prosesau a'r gweithdrefnau a amlinellir yn y Canllawiau Cyfryngau Symudadwy.

Fel rhan o allu Monitro Amddiffynnol yr Heddlu, cyflwynir rhybuddion gan y Ganolfan Rheolaeth Genedlaethol (NMC) i'r Adran TGCh, sy'n cefnogi TGCh ymhellach wrth fonitro defnydd amhriodol o gyfryngau symudadwy.

Cyfeirir unrhyw fethiannau sylweddol o fewn y gweithdrefnau a gynhwysir o fewn y Canllawiau Cyfryngau Symudadwy at Reolwyr TGCh er ystyriaeth.

Bydd canllawiau ac argymhellion gan sefydliadau perthnasol, gan gynnwys y Sefydliad Cenedlaethol Safonau a Thechnoleg a'r Ganolfan Genedlaethol Diogelwch yn cael eu hystyried mewn perthynas â diwygio/diweddaru'r polisi hwn.

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Yn unol â Rhan 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 mae'n ofynnol i'r Heddlu gyhoeddi ei holl bolisiau ar wefan yr Heddlu. Polisiau sy'n dangos pam yr ydym yn gwneud pethau a gweithdrefnau sy'n dangos sut yr ydym yn eu gwneud. Rhaid cynnal adolygiad o'r gweithdrefnau fesul achos er mwyn diogelu ystyriaethau'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith ac iechyd a diogelwch. Os cynhyrchir dogfen sy'n cyfuno polisi a gweithdrefnau, mae'n ofynnol o dan y gyfraith i'r Heddlu gyhoeddi'r polisi ac asesu'r rhan sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau i sicrhau na chaiff unrhyw wybodaeth sensitif ei chyhoeddi. Yn gyffredinol, fel sefyllfa ddiodyn, cynhyrchir polisi a dogfen weithdrefn ar wahân.

Mae'n ofynnol felly i adolygu'r ddogfen hon er mwyn cadarnhau ei bod yn addas i'w chyhoeddi. Noder isod p'un ai yw'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd ai peidio. Os credir y gallai datgelu fod yn niweidiol, disgrifiwch y niwed y byddai'r cyhoeddi'n ei achosi gan amlygu'r rhannau perthnasol yn y ddogfen. Os tybir y gallai datgelu fod yn niweidiol dylid anfon y ddogfen i'r Uned Rhyddid Gwybodaeth i'w hadolygu.

Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi

Addas i'w chyhoeddi	Ydyw/Nac ydyw	Dyddiad	Llofnod
Dogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd	Ydyw	29.07.2020	██████

SWYDDOGOL



Heddlu Police

DYFED-POWYS

Addas i'w chyhoeddi	Ydyw/Nac ydyw	Dyddiad	Llofnod
Dogfen yn addas i'w chyhoeddi'n rhannol. Rwyf wedi amlygu'r rhannau y credaf nad ydynt yn addas i'w datgelu ac wedi disgrifio isod y niwed y byddai cyhoeddi yn ei achosi.			

Amlinelliad o unrhyw niwed a nodwyd mewn cyhoeddi: Amh.

Adolygiad Rhyddid Gwybodaeth – i'w gwblhau gan yr Uned Ddatgelu

(Dim ond os yw'r awdur yn credu bod niwed mewn cyhoeddi)

Addas i'w chyhoeddi	Ydyw/Nac ydyw	Dyddiad	Penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth
Dogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd			
Dogfen yn addas i'w cyhoeddi yn rhannol a gwnaed golygiadau perthnasol. Crëwyd fersiwn sy'n addas ar gyfer y cyhoedd.			

Ar ôl cwblhau'r adolygiad dylai'r penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth ddychwelyd y ddogfen i awdur y polisi, ac ar ôl ei chymeradwyo a'i llofnodi, dylid ei chyhoeddi o fewn Cynllun Cyhoeddi'r Heddlu. Dylai unrhyw newidiadau pellach i'r ddogfen gael eu dwyn i sylw'r Uned Rhyddid Gwybodaeth, fel y bo'n addas.

Rheoli Fersiynau Llawn

SWYDDOGOL



Heddlu Police

DYFED-POWYS

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Rhesymwaith
1.0	16.08.2017	[REDACTED]	Fersiwn terfynol cyntaf wedi'i greu
2.0	02.02.2018	[REDACTED]	Trosoglwyddo i'r templed polisi diweddaraf ac adolygiad o'r polisi. O ganlyniad, gwnaed rhai diwygiadau.
3.0	16.07.2020	[REDACTED]	Trosoglwyddo i'r templed polisi diweddaraf ac adolygiad o'r polisi. O ganlyniad, gwnaed rhai diwygiadau.
4.0	02.10.2020	[REDACTED]	Adolygu cyn ei gyflwyno i'w gymeradwyo, mân newidiadau wedi'u gwneud.
5.0	21.09.2021	[REDACTED]	Adolygiad blynyddol 2021
6.0	29.10.2021	[REDACTED]	Cwblhau adolygiad blynyddol 2021, mân newidiadau gosodiad a gramadegol.
7.0	16.11.2021	[REDACTED]	Adolygiad terfynol 2021, mân newidiadau gramadegol.